

# Eich offer trydanol ac amhariadau i'r cyflenwad

## **Mae'r cyflenwad trydan drwy Brydain yn ddibynadwy iawn. Rydym i gyd yn disgwyl i drydan fod ar gael pryd bynnag yr ydym ei angen, ond ar adegau prin gall problemau godi.**

Weithiau mae offer trydanol sydd wedi ei gysylltu yn gallu effeithio'n ddifrifol ar foltedd y cyflenwad. Mae unrhyw offer sy'n defnyddio llawer o gerrynt neu sy'n diffodd a chynnu'r cerrynt yn aml yn gallu achosi anawsterau. Mae moduron trydan a pheiriannau weldio yn arbennig o drwm ar drydan. Rheolir yr anawsterau hyn ar y cyfan trwy gydymffurfio â safonau ac arferion perthnasol; er enghraifft rheolir amrywiadau foltedd mewn offer trydanol bychan wrth gydymffurfio â Safon Brydeinig benodol; mae peiriannau mwy yn ddarostyngedig i ystyriaeth benodol gan Western Power Distribution (WPD). Effeithir ar y foltedd hefyd os yw'r system drydan wedi cael ei difrodi neu os bydd nam ar offer. Yn achlysurol bydd ceblau'n cael eu taro yn ystod gwaith ffordd a gall ceblau uwchben gael eu difrodi gan fellt, gwyntoedd cryf iawn neu goed a brigau'n disgyn. Pan fo hyn yn digwydd bydd y foltedd fel arfer yn disgyn am ran o eiliad a bydd wedyn yn dychwelyd i fod yn arferol. Weithiau gall y trydan ddiffodd yn llwyr am gyfnod.

Mae WPD yn gweithio'n galed i wneud y rhwydwaith drydan yn fwy dibynadwy yng Nghanolbarth Lloegr, De Cymru a De Orllewin Lloegr.

## **Offer Trydanol**

Gall gostyngiad yn y foltedd a thoriadau i'r cyflenwad effeithio ar rai darnau o offer. Mae'n bosibl y bydd angen ailosod clociau digidol, offer DVD/fideo a chyfarpar arall yn dilyn amhariad. Hefyd gall y bydd cyfrifiaduron yn cau i lawr a gwybodaeth yn cael ei golli neu ei lygru.

Gall offer hefyd gael ei ddifrodi gan fellt a all dreiddio i adeiladau drwy geblau trydan neu ergyd uniongyrchol i adeilad. Yn ôl deddfwriaeth Ewropeaidd ddaeth i rym ar 1 Ionawr 1996, mae'n rhaid i offer trydanol newydd gael ei ddylunio i allu gwrthsefyll y math o amhariadau sydd i'w canfod fel arfer ar unrhyw rwydwaith cyflenwi trydan. Bu i nifer o wneuthurwyr fodloni'r safon hon cyn y dyddiad hwn.

## **Cadw gwaith cyfrifiadurol wrth gefn**

Os ydych yn defnyddio cyfrifiadur, rydym yn awgrymu eich bod yn cadw'ch gwaith yn rheolaidd. Hefyd dylid cadw copiâu o ffeiliau pwysig rhag ofn i nam ddigwydd i'ch cyfrifiadur.

## **Goleuadau'n Crynu**

Weithiau gall y byddwch yn sylwi bod eich goleuadau'n crynu neu'n pylu. Os nad yw hyn yn digwydd yn aml ac nad yw'n rhy ddrwg, mae'n annhebygol bod problem tymor hir. Os yw'n digwydd yn rheolaidd neu ei fod yn arbennig o ddrwg, cysylltwch â WPD; byddwn yn fwy na pharod i ymchwilio i'r mater.

## **Amddiffyn eich offer**

Mae sawl dyfais ar gael all eich helpu i leihau effeithiau amrywiadau mewn foltedd, melltt, amhariadau a thoriadau i'r cyflenwad.

- **Mur ymchwydd** (Surge protectors) sy'n gosod uchafswm i'r foltedd all gyrraedd offer trydanol. Gellir eu defnyddio i amddiffyn offer sensitif megis derbynyddion lloeren rhag cael eu difrodi gan foltedd uwch na'r cyffredin yn y cyflenwad trydan sydd, er yn brin iawn, yn gallu digwydd. Gall plygiau atal ymchwydd gostio o tua £15.
- **Hidlyddion pŵer** i amddiffyn rhag foltedd uchel fel y gwna mur ymchwydd. Gallant hefyd leihau ymyrraeth â'r cyflenwad. Gall plygiau hidlo gostio o tua £30.

- **Cyflyrwyr llinell** (Line conditioners) sydd yn rheoli foltedd ac yn cael gwared ag ymyrraeth ar y cyflenwad. Weithiau cânt eu defnyddio mewn ffatrïoedd pan fo offer trwm yn cael ei ddefnyddio'n agos i gyfrifiaduron ac offer swyddfa. Dylid cael cyngor arbenigol cyn prynu'r math hwn o offer. Gall cyflyrwyr llinell gostio o tua £250.

**Cyflenwad Pŵer Di-dor (UPS)** sydd wedi ei ddylunio i gynnal pŵer i offer os yw'r trydan yn methu. Maent yn cael eu defnyddio'n aml i roi cyflenwad i gyfrifiaduron pan fo'n bosibl y bydd gwybodaeth hanfodol yn cael ei golli fel arall.

## Systemau UPS

Ceir dau fath o systemau UPS:

- Systemau **UPS Ar-lein** sy'n darparu trydan i'r offer drwy'r amser. Bydd system sydd wedi ei chynllunio a'i chynnal yn dda yn helpu i amddiffyn rhag y rhan fwyaf o amhariadau i'r cyflenwad.
- Systemau **UPS All-lein**, a elwir ar brydiau yn UPS Wrth Gefn, sy'n darparu cyflenwad wrth gefn i'r offer. Maent yn dod ymlaen ond yn unig pan fo'r prif gyflenwad yn methu. Mae'r rhan fwyaf o systemau all-lein yn amddiffyn rhag toriadau mewn cyflenwad yn unig a dim ond ychydig o effaith fydd ganddynt yn erbyn ymchwydd mewn cerrynt a phroblemau eraill.

Bydd y ddau fath yn cynnal pŵer i gyfrifiadur am gyfnod byr i ganiatáu cadw gwaith. Bydd

rhai fersiynau'n cadw ffeiliau cyfredol yn awtomatig.

Mae cost systemau UPS yn amrywio'n fawr, yn dibynnu ar eu math a'u cyfraddiad. Dylid cael cyngor arbenigol os ydych yn ystyried cael system UPS. Gall UPS all-lein elfennol all gyflenwi llwyth i gyfrifiadur am tua phum munud gostio o tua £200.

## Cyngor Pellach

Mae rhai siopau cyfrifiaduron a siopau mawr electroneg yn darparu hidlyddion a muriau ymchwydd; gall eu bod hefyd yn darparu cyngor ar systemau UPS. Yn aml, mae cylchgronau cyfrifiadurol sy'n cael eu hanelu at ddefnyddwyr busnes yn cynnwys hysbysebion gan gwmnïau UPS arbenigol.

### Nodwch

Ni all Western Power Distribution warantu bod offer a drafodir yn y bamffled hwn yn gwbl effeithiol na'n addas ar gyfer pob defnydd. Os oes gennych unrhyw amheuan gofynwch i'r gwneuthurwr am gyngor.

Western Power Distribution (East Midlands) plc  
Registered in England and Wales No 2366923  
Western Power Distribution (West Midlands) plc  
Registered in England and Wales No 3600574  
Western Power Distribution (South Wales) plc  
Registered in England and Wales No 2366985  
Western Power Distribution (South West) plc  
Registered in England and Wales No 2366894

# AMHARIADAU

I'CH OFFER TRYDANOL  
A'CH CYFLENWAD

**WESTERN POWER**  
**DISTRIBUTION**

*Gwasanaethu Canolbarth a De Orllewin Lloegr a Chymru*